

---

## Dogfennau Ategol – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Lleu Williams
Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Ionawr 2022	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.00	<a href="mailto:SeneddDiwylliant@senedd.cymru">SeneddDiwylliant@senedd.cymru</a>

### O bell – Papur i'w Nodi Ychwanegol

---

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

**5.11 Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol**

(Tudalennau 1 – 3)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch y Gronfa Adferiad Diwylliannol



Ein cyf/Our ref DB/647/22

Delyth Jewell AS/MS  
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,  
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

18 Ionawr 2022

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 6 a 21 Rhagfyr 2021 ynghylch y 'Gronfa Adferiad Diwylliannol'.

### Y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Ar 12 Ionawr cyhoeddais gymorth ychwanegol i'r sector diwylliannol yng Nghymru sy'n parhau i gael ei effeithio gan y pandemig a'r cyfyngiadau diweddar yr oedd angen i Lywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i ddiogelu Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu £15.438m yn ychwanegol i redeg trydedd cylch o'r Gronfa Adfer Diwylliannol (CRF).

Lansiodd Cyngor Celfyddydau Cymru y broses ymgeisio ar 12 Ionawr i gefnogi sefydliadau o fewn y sector celfyddydau. Mae cyllideb Cronfa Sefydlogrwydd y Gaeaf a gyhoeddwyd yn flaenorol bellach wedi'i chyfuno â thrydydd cylch y Gronfa Adfer Diwylliannol er mwyn sicrhau aliniad â'r cymorth ariannol ehangach sydd ar gael.

Cysylltir â'r sectorau sy'n weddill yr effeithiwyd arnynt, gan gynnwys lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, lleoliadau a threfnwyr digwyddiadau, amgueddfeydd lleol annibynnol, llyfrgelloedd cymunedol ac annibynnol, orielau a sinemâu annibynnol a gefnogwyd yn flaenorol drwy Gronfa Adfer Diwylliannol Llywodraeth Cymru drwy lythyr yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 17 Ionawr. Bydd y llythyr yn nodi sut y gallant gael gafael ar gymorth ariannol. Bydd cymorth hefyd i fusnesau a sefydliadau cymwys nad ydynt wedi derbyn cymorth drwy'r Gronfa Adfer Diwylliannol hyd yma, sy'n gallu bodloni'r meini prawf.

I fod yn gymwys, bydd yn rhaid i fusnesau hunanddatgan yr effeithiwyd arnynt yn sylweddol drwy lai o drosiant rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd yn glir ynghylch yr effaith y mae'r cyfyngiadau presennol yn ei chael ar ein cymuned o weithwyr llawrydd creadigol ac rydym yn edrych ar gynyddu ein lefel o gymorth iddynt. Bydd manylion am hyn yn dilyn maes o law.

Yn dilyn trafodaethau gyda phartneriaid, diwydiant ac undebau llafur, rydym wedi dyblu (i £1,000) dyfarniad grant y Gronfa Fusnes Frys sydd ar gael i unig fasnachwyr, gweithwyr llawrydd a gyrwyr tacsis cymwys nad ydynt yn talu ardrethi.

Mae'r gronfa ddewisol yn cynnig taliad untro i'r gweithwyr llawrydd hynny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ganslo neu ohirio gweithgarwch oherwydd y cyfyngiadau lefel Rhybudd 2 yng Nghymru. Bydd y gronfa'n canolbwyntio ar y gweithwyr llawrydd hynny sydd wedi colli incwm yn y celfyddydau perfformio a rolau ymgysylltu cymunedol ehangach a fyddai wedi canslo neu ohirio perfformiadau, arddangosfeydd a sioeau. Nid ydym yn disgwyl i weithwyr llawrydd sy'n gweithio mewn sectorau nad ydynt yn cael eu heffeithio gan gyfyngiadau lefel Rhybudd 2 wneud cais i'r gronfa hon.

Mae'r trydydd cylch hwn yn adeiladu ar y cymorth blaenorol, lle rydym wedi darparu £93m o gyllid ar draws dau gam y Gronfa Adfer Diwylliannol sydd wedi cefnogi busnesau, sefydliadau ac unigolion yn y sectorau diwylliannol allweddol.

## Pàs COVID

Ni wnaed y penderfyniad hwn i weithredu pàs COVID yng Nghymru yn ysgafn a chafodd lleoliadau diwylliannol eu cynnwys am eu bod dan do ac mae nifer fawr o bobl yn ymgynnull ynddynt yn agos at ei gilydd am gyfnodau hir. Fel y gwyddom, po hiraf mae niferoedd mawr o bobl yn agos at ei gilydd, yn enwedig dan do, po fwyaf yw'r risg o drosglwyddo.

Mae'r gyfraith yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio [Pàs COVID y GIG neu brawf llif unffordd negatïf](#) ar gyfer sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd. Mae Gweinidogion wedi gwneud eu disgwyliadau yn glir i leoliadau a digwyddiadau yng Nghymru yn y [canllawiau](#) a gyhoeddwyd. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol ar weithredu'r Pàs COVID. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r broses weithredu a byddwn yn gwneud newidiadau i'r canllawiau, os oes angen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi busnesau sy'n gweithredu'r Pàs COVID, fel y gwnaethom gefnogi'r broses weithredu gychwynnol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd â rhanddeiliaid, canllawiau, cwestiynau cyffredin a darparu deunyddiau cyfathrebu.

Gwnaethom waith cyfathrebu helaeth i gyhoeddi a hyrwyddo estyn y defnydd o'r Pàs COVID i sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd. Cafwyd sylw eang yn y cyfryngau a gweithgarwch helaeth ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r polisi cyn iddo gael ei weithredu. Rydym hefyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth drwy ein holl sianelau cyfathrebu.

Ochr yn ochr â'r gweithgarwch hwn, crëwyd asedau wedi'u diweddarau fel posteri i randdeiliaid eu lawrlwytho a'u defnyddio, diwygiwyd canllawiau a chyhoeddwyd pecyn hyrwyddo ar wefan llyw.cymru. Gweler y dolenni isod:

- Asedau cyfathrebu Pàs COVID y GIG yma: [Asedau a Gyhoeddwyd \(assetbank-server.com\)](#)
- Tudalen we wedi'i diweddarau: 'Sut i gael eich Pàs COVID y GIG': [www.llyw.cymru/cael-eich-pas-covid-y-gig](#)

- Canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer busnesau a digwyddiadau:  
[www.llyw.cymru/pas-covid-canllawiau-ar-gyfer-busnesau-digwyddiadau](http://www.llyw.cymru/pas-covid-canllawiau-ar-gyfer-busnesau-digwyddiadau)
- Pàs COVID y GIG: pecyn hyrwyddo – [Pàs COVID y GIG: pecyn hyrwyddo | LLYW. CYMRU](#)

Mae [papur tystiolaeth diweddar y Gell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru ar effaith Pasyd COVID](#) yn nodi pan ofynnir i bobl ynghylch mynychu digwyddiad lle mae angen Pàs COVID, fod llai nag un o bob pump (19%) yn dweud y byddai'n eu gwneud yn llai tebygol o fynychu.

Mae achosion o'r coronafeirws yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel iawn. Mae Pàs COVID y GIG yn ffordd arall y mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r mesurau sydd gennym ar waith i'n cadw ni i gyd yn ddiogel.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip  
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip